



Hijinx

"Mae Hijinx yn helpu i ddangos
galluogrwydd ein mab i'r byd,
a gadael i bobl weld yr hyn
a welwn ni bob diwrnod, yn
hytrach na dim ond gweld
rhywun ag anabledd."

Rhiant



Adroddiad ar yr Effaith Gymdeithasol

Pwy ydyn ni

Mae Hijinx yng Nghymru yn cael ei ystyried yn un o'r cwmnïau theatr mwyaf blaenllaw, sy'n cynhyrchu perfformiadau a gweithgareddau o ansawdd uchel.

Rydym yn un o brif gwmnïau theatr cynhwysol Ewrop, sy'n ymdrechu dros gydraddoldeb trwy greu celf ragorol gydag actorion ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth (LD/A), ar y llwyfan, ar y sgrin, ar y stryd, yn lleol, yn genedlaethol, ac yn rhyngwladol, i Gymru ac i'r byd.

Yn Hijinx, ein gweledigaeth yw byd lle mae'r celfyddydau a chymdeithas yn gwbl gynhwysol i bobl ag anableddau dysgu a/neu bobl awtistig. I gyflawni hyn, ein cenhadaeth yw arloesi, creu a hyrwyddo cyfleoedd yn y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol i bobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth

Yr Adroddiad ar yr Effaith Gymdeithasol yw'r tro cyntaf i ni werthuso ein gwaith fel hyn. Rydym ni wedi gweld y pŵer sydd gan theatr a'r gelfyddydau i drawsnewid, ac roedd hwn yn gyfle i ni atgyfnerthu ein stori, a rhannu storïau ein cyfranogwyr, ein hactorion a'u teuluoedd. Rhannu'r llwyddiannau a dangos yr hyn sy'n wych, yn unigryw ac yn feiddgar am Hijinx.

Sarah Horner
Prif Weithredwr - Hijinx

Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn dangos yn glir yr effaith o wella bywydau y mae Hijinx yn ei chael ar fywydau ein hactorion a'u rhieni a'u cymunedau, trwy fagu hyder ac annibyniaeth a chynyddu hapusrwydd. Mae'r adroddiad yn dangos hefyd sut rydym yn creu gwerth sylweddol yn y gymdeithas ehangach trwy newid ymwybyddiaeth y bobl sy'n gweithio gyda ni, y bobl sy'n mynychu ein perfformiadau, a'r bobl sy'n profi ein cyrsiau hyfforddiant.

Er bod yr adroddiad hwn yn galonogol i ni, gwyddwn fod llawer i'w wneud – mwy fyth wrth i ni adfer ar ôl effeithiau dinistriol y pandemig. Mae artistiaid anabl yn ased diwylliannol hanfodol yn y DU ac rydym yn llwyr gefnogi gwaith Cynghair Celfyddydau Anabledd y DU ac ymgyrch #WeShallNotBeRemoved i gael adferiad gwirioneddol gynhwysol.

James Downes
Cadeirydd - Hijinx

"Yn syml, mae Hijinx yn creu'r gwaith gorau. Gyda phawb, ar gyfer pawb, i'w gymryd i bob man. Maen nhw wedi gwneud gwaith cynhwysol, sef rhywbeth y dylai pawb ohonom ei wneud."

Partner mewn Diwydiant

Beth yw Effaith Gymdeithasol?

Yr effaith gymdeithasol yw'r newid rydym wedi'i greu ym mywydau ein hactorion, ein cyfranogwyr, eu teuluoedd, ein staff a'r sector.

Roeddem eisiau darganfod sut mae Hijinx wedi cyfrannu at ein cymunedau. Roeddem eisiau deall ein heffaith economaidd yn ogystal â chlywed hanesion personol gan y bobl rydym yn gweithio â nhw.

Aethom ati i gomisiynu gwerthusiad annibynnol o'r ffordd rydym wedi newid bywydau ein hactorion, ein cyfranogwyr a'u teuluoedd, ein staff, ein partneriaid a sector y celfyddydau.

Dros gyfnod o flwyddyn, bu ein hymchwilyr yn datgelu rhai themâu allweddol sy'n gwneud Hijinx mor bwysig fel cwmni theatr cynhwysol cenedlaethol Cymru. Byddwn yn rhannu'r straeon allweddol hynny am y ffordd rydym o fudd i bobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth (LD/A) a'r bobl sydd o'u cwmpas, a sut rydym yn helpu i newid barn y sector a barn ein cymunedau.

Ymchwilyr:

Abigail Tweed – Milestone Tweed
& Mark Richardson – Ymgynghoriad
ar Effaith Gymdeithasol

Rydym yn cyrraedd miloedd o bobl bob blwyddyn. **Mewn dros flwyddyn, rydym wedi ymgysylltu â**

- **123 o actorion LD/A**
- Cefnogi **228 o rieni neu ofalwyr.**
- **1336 o bobl** wedi cael hyfforddiant Hijinx ar ddysgu sut i gyfathrebu'n effeithiol.

Roeddem wedi creu gwerth dros **£4.5 miliwn** o werth cymdeithasol. Am bob **£1 a fuddsoddiwyd** yn Hijinx, cynhyrchom **£4.84** mewn gwerth cymdeithasol.

Beth mae hyn yn ei olygu yn ariannol?
Mae hyn yn golygu y cynhyrchom werth...



Gwneud pobl yn hapus

Rydym yn dangos bod y celfyddydau perfformio yn fodd er budd iechyd a llesiant, a chynyddu hapusrwydd ym mywydau pobl.

"Am un diwrnod yr wythnos mae hi'n hapus iawn ac mae ganddi rywbeth i edrych ymlaen ato. Hyd nes iddi ymuno doedd ganddi ddim byd fel hyn. Dyma'r un noson y mae hi'n mynd allan a chymdeithasu. Mae wedi gwneud gwahaniaeth anferth."
Rhiant

- Dywedodd **73% o actorion a chyfranogwyr** eu bod yn reimlo'n hapusach ers ymuno â Hijinx.

Helpom ein cymuned o actorion a chyfranogwyr i deimlo'n llai ynysig yn ystod COVID-19. Cynhaliwyd rhywfaint o'r ymchwil yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud. Dangosodd sut roedd ein gweithgareddau rhithwir yn helpu i ddarparu ffocws bob wythnos ar gyfer ein hactorion a'n cyfranogwyr, gan greu parhad yn y cysylltiad rhwng ein gilydd.



Hyder i berfformio ar lwyfan ac ym mywyd bob dydd

Rydym yn buddsoddi yn sgiliau actio ein hactorion a'n cyfranogwyr. Maen nhw'n datblygu o ran proffesiynoldeb ac rydym wedi gweld sgiliau cyfathrebu yn gwella. Rydym wedi'u gweld yn fwy hyderus wrth rannu eu barn a'u profiadau, lle gallent fod wedi cael trafferth gwneud hynny o'r blaen

"Maen nhw'n datblygu sgiliau cynhwysfawr iawn. Actio, gwaith sgrïpt, symud, dawn, meimio, clownio, pypedwaith, ac yn ddiweddar maen nhw wedi dysgu sut i recordio eu hunain, i'w helpu i gynnig eu hunain ar gyfer rolau. Mae'n gwricwlwm cyflawn, ac mae ansawdd y tiwtoriaid ar lefel uchel iawn."

Aelod o Staff

"O fod yn ferch swil a gostyngedig, na fyddai'n gwneud unrhyw beth, dwi wedi dod yn ferch annibynnol a hyderus sydd â'r hyder i fynd i deithio, ac nid ydyn nhw [fy rhieni] yn gorfod gofidio amdanaf. Diolch i leoliad oedolyn a Hijinx, dwi yma'n gwneud yr hyn rwy'n ei wneud heddiw. Maen nhw'n wych. Maen nhw wedi rhoi llawer o gymorth i mi."

Actor gyda Hijinx

- Mae **9 allan o 10** o actorion Hijinx yn fwy hyderus o ganlyniad i'w gwaith gyda Hijinx.
- Mae **72% o'n hactorion** wedi profi cynnydd yn eu hannibyniaeth o ganlyniad i Hijinx.

Mae ein hactorion bellach yn fwy trefnus ac mae rhai ohonynt yn teithio ar eu pennau eu hunain, â chefnogaeth Hijinx, i lawer o wledydd tramor. Mae rhai o'n hunigolion wedi dod yn fwyfwy annibynnol ac wedi ymgymryd â mwy o gyfrifoldeb yn ystod eu hamser gyda ni, gan gynnwys byw'n annibynnol



Pobl o'n cwmpas



Ffotograff gan: Matthew Thistlewood

Yn ogystal â chyfrannu at helpu ein hactorion a'n cyfranogwyr i wella eu sgiliau a'u hyder, rydym hefyd wedi gwella ffordd o fyw eu teuluoedd, eu ffrindiau a'n staff.

Mewn cyfnod byr o amser, mae'r actor yn gallu mynd i ffwrdd ar ei ben ei hun, i ffwrdd o gartref, a theithio gyda ni.

"Mae gweithio gyda Hijinx yn newid bywydau. Mae wedi newid fy safbwyntiau'n ddramatig ynghylch pobl ag anableddau dysgu. Roeddwn i'n meddwl bod gen i feddwl agored ond mae rhai pethau y mae cymdeithas yn eu gwreiddio ynddoch chi. Sylweddolais nad y realiti oedd rhai o'r agweddau roeddwn wedi'u derbyn."

Aelod o Staff

- Mae **1/5** o rieni'n dweud bod Hijinx yn rhoi seibiant dymunol iddynt.

"Academi broffesiynol yw hon. Mae'n gofyn llawer ac mae ganddi safonau. Maen nhw'n eich gwithio chi hyd at eithaf eich gallu, ac i beidio ag amau eich hun. Ar yr un pryd, maen nhw'n rhoi gofod i chi. Os ydych chi'n teimlo'n isel, maen nhw'n gadael i chi gael munud o saib i hel eich hun at eich gilydd. Maen nhw'n gefnogol iawn. Maen nhw'n gofalu am eich lles"

Un o Actorion Hijinx

Newid Ymgyffrediad

Rydym yn cyfrannu at newid y canfyddiad o'r ffordd y mae pobl ag anableddau dysgu neu awtistiaeth (LD/A) yn cael eu gweld ar y llwyfan, ar y sgrin ac yn ein cymunedau.

"Daeth un fam ataf yn ei dagrau. Dywedodd, 'Mae wedi newid y ffordd dwi'n gweld pobl ag anableddau dysgu, a dwi'n fam i berson ag anableddau dysgu. Mae wir wedi newid y posibiladau i ni ar gyfer y dyfodol.'"

Staff Hijinx

Mae ein cymuned o artistiaid yn ymdrin â chanfyddiadau negyddol yn ddyddiol. Yn aml, maen nhw'n cael eu trin fel plant, mae pobl yn nawddoglyd tuag atynt, mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ar eu rhan, mae pobl yn siarad ar eu rhan, ac mae cymorth, er â bwriad da, yn aml yn ddiangen neu'n ddigroeso, ac yn waeth fyth, maen nhw'n destun sarhad.

Mae rhieni'n teimlo mai prin yw'r cyfleoedd ar gyfer pobl ag anabledd dysgu neu bobl awtistig (LD/A) a bod Hijinx yn sefydliad cadarnhaol a blaengar sy'n darparu profiad da iawn.

Mae aelodau staff wedi dweud bod rhieni wedi newid eu disgwyliadau ynghylch eu plentyn sydd ag anabledd dysgu a/neu'n awtistig (LD/A) o ganlyniad i waith fel actor neu gyfranogwr gyda Hijinx.

- Dywed **73%** o rieni Hijinx ei fod wedi newid eu disgwyliadau o'r hyn y gall eu plant ei wneud.



Newid y sector

Rydym yn cyflwyno miloedd o bobl bob blwyddyn i theatr niwroamrywiol. Rydym yn creu perfformiadau o ansawdd uchel sy'n newid y ffordd rydym yn amgyffred y byd.

"Mae Hijinx yn dangos y gellir gweithio gyda phobl ag awtistiaeth neu anawsterau dysgu ar sail gyfartal, gan ystyried ein hanghenion gwahanol, a darparu strwythur i weithio ynddo, a chefnogaeth i bawb yn yr ystafell."

Partner mewn Diwydiant

"Mae Hijinx wedi cadarnhau cred ym mhotensial creadigol pob unigolyn a'r angen i wneud gwaith mor agored a hygyrch â phosibl tra'n cynnal y safonau uchaf a gwneud gwaith mor heriol â phosibl."

Partner mewn Diwydiant

- Mae ein hyfforddiant sgiliau perfformio a'r cyfleoedd sydd ar gael yn werth **5958 o docynnau theatr.**
- Mae **90%** o'r bobl greadigol y gweithiwn â nhw, wedi newid y ffordd y maen nhw'n gweithio.

Mae ein rhaglen hyfforddiant wedi codi ymwybyddiaeth a chynyddu hyder ynghylch gweithio â phobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth (LD/A)

Fe welodd dros **15,000** o bobl ein sioeau.

Mae hynny bron yn



3x Neuadd Albert

Nid ydym wedi gorffen. Dyma beth rydym eisiau ei newid nesaf...

Mae ein gwaith yn arloesol. Mae'r ffordd rydym yn hyfforddi ac yn cefnogi yn cyfrannu at newid yr amgyffrediad o bobl ag anableddau dysgu a phobl niwrowahanol.

Rydym wedi ymrwmo i newid bywydau ein hactorion, cyfranogwyr a'r sector:

Adfer ar ôl Covid

Byddwn yn gweithio i sicrhau nad yw ein cymunedau'n cael eu heithrio rhag ymgysylltu â'r celfyddydau ar ôl y pandemig.

Ochr yn ochr â llawer o sefydliadau ac unigolion eraill, byddwn yn parhau i lobïo ar gyfer darpariaeth gynhwysol i artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd.

Byddwn yn lobïo diwydiannau'r sgrin a'r llwyfan i ddilyn **Saith Egwyddor y Diwydiant**, sef canllaw newydd i gynorthwyo'r diwydiant i wneud penderfyniadau cynhwysol, i fynd y tu hwnt i gydymffurfio a dathlu amrywiaeth.

Byddwn yn cynorthwyo ein hactorion a'n cyfranogwyr i ddychwelyd i weithgareddau yn yr ystafell mewn ffordd ddiogel ac ystyriol. Byddwn yn ymdrechu i ailadeiladu eu hyder a meithrin eu doniau.


Uchelgeisiau

Ni fyddwn yn cyfyngu ar ein uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol nac yn eu lleihau – os unrhyw beth, rydym wedi ein calonogi!

Byddwn yn parhau i herio amgyffrediaid, ac yn ymdrechu am degwch a chynrychiolaeth i bobl ag anableddau dysgu a phobl awtistig ar y sgrîn, ar lwyfan ac yn ein cymunedau drwy gydweithio â phartneriaid i newid ffyrdd o feddwl a ffyrdd o weithio, a chael gwared ar rwystrau systemig.

Byddwn yn ailgydio yn ein cynyrchiadau cynhwysol ac yn defnyddio ein dysgu o'r cyfnod clo i ddatblygu cynyrchiadau theatr digidol, cymysg newydd sy'n hygyrch ac yn gynhwysol i bawb.

Byddwn yn gweithio i gynyddu cynrychiolaeth ar y sgrîn ac ar lwyfan. Rydym am i actor niwrowahanol gael eu henwebu am wobr BAFTA Cymru erbyn 2025, gwobr BAFTA erbyn 2028 ac Oscar erbyn 2030.



Ffotograff gan: Kirsten Mcernan - Meet Fred.

Dros gyfnod o flwyddyn:

Mae

90%

o'r bobl greadigol yr ydym yn gweithio gyda nhw yn teimlo'n fwy **cynhwysol** ac wedi newid y ffordd y maent yn gweithio

Rydym wedi creu dros **£4.5 miliwn** o werth cymdeithasol.



Fe **wnaethom** greu yr un faint â

5958

o docynnau theatr

o sgiliau perfformio a chyfleoedd

Cododd ein **rhaglen hyfforddi** ymwybyddiaeth a **chynyddu hyder** wrth weithio gyda phobl ag anabledd dysgu a niwrowahanol

Mae

70%

o'n hactorion a chyfranogwyr yn **well am** gyfathrebu a gweithio fel tîm

Fe welodd dros **15,000** o bobl ein sioeau.


Mae hynny bron yn



3x

Neuadd Albert

Dywedodd



Rydym wedi cynyddu hapusrwydd a llesiant yn ein cymunedau a allai lenwi

66,545

o gwpanau coffi

Mae

9

allan o 10

o actorion Hijinx yn fwy hyderus

Mae

72%

o'n hactorion yn

teimlo'n fwy

annibynnol ers actio


ac **ymgysylltu**

Dywedodd rhai rhieni bod **Hijinx**

yn rhoi seibiant i'w goesawu iddynt

53%

o rieni Hijinx ei fod wedi newid eu hamgyffrediad 'yn fawr iawn'





hijinx.org.uk
+44 (0)29 2030 0331

Canolfan Mileniwm Cymru,
Bute Place, Bae Caerydd,
Caerdydd, CF10 5AL, Cymru

Elusen Gofrestredig Rhif 107835

Cyhoeddwyd: Hydref 2021 (ar sail ymchwil a gynhaliwyd yn ystod 2020-21)

**LLOYDS BANK
FOUNDATION**
England & Wales

